**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

31 Mai 2023

Bil Bwyd (Cymru)

Annwyl Lesley,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil methiant y Bil Bwyd (Cymru) ar 24 Mai. Yn ystod y ddadl dan sylw, roeddwn yn falch o glywed eich bod yn cefnogi nodau eang y Bil a'ch bod am fanteisio ar y momentwm y mae Peter Fox wedi'i greu ynghylch polisi bwyd drwy'r Bil hwn. Yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn ein hadroddiad, roedd y Pwyllgor hefyd yn llwyr gefnogi nodau polisi'r Bil.

Fel y gwyddoch, gwnaethom ddrafftio adroddiad y Pwyllgor ar yr egwyddorion cyffredinol mewn modd a oedd yn caniatáu inni gynnwys argymhellion polisi y gellid eu dilyn pe bai'r Bil yn syrthio. A fyddai modd i chi amlinellu eich cynllun i fanteisio ar y momentwm a grëwyd gan Peter ac ymateb i'r argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad: 2, 4, 6, 8, 9, 10, 12, 16, a 17?

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Peter Fox yn rhinwedd ei rôl fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil; at Huw Irranca-Davies yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; ac at Peredur Owen Griffiths yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Welsh Parliament